# <u>Cyngor Cymuned Llandderfel.</u>
# <u>Cyfarfod Blynyddol.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 24ain 2022 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Evans, Gwenda Morris, Gary Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eifion Davies, Dewi Pritchard a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Croesawyd Gwenda Morris yn nôl i'r cyngor ar ôl cyfnod o salwch.

<u>i) Croesawu'r cynghorwyr.</u>
Croesawyd y cynghorwyr i'w tymor newydd ar y Cyngor. Gwblhawyd y ffurflenni derbyn swydd a datgan buddiant.

<u>ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.</u>
Etholwyd Maldwyn Jones fel cadeirydd ac Eifion Davies yn is-gadeirydd. Gan nad oedd Maldwyn Jones yn bresennol cytunodd Rita Jones i gadeirio'r cyfarfod.

<u>iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.</u>
Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Gwynedd Jones.
Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Roedd cyfnod y Cyngor wedi dod i ben a thro cynrychiolydd o Gyngor Llanycil oedd mynychu'r cyfarfodydd. Diolchwyd i Eifion Davies am gynrychioli Cyngor am y pedair blynedd ddiweddaf.
Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

<u>iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor.</u>
Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol oedd y Clerc wedi ei baratoi.

<u>v) Cyfrifon 2021-22.</u>
Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2021-22 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

<u>vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.</u>
Mi roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor.

<u>vii) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd</u>.
Yn dilyn trafodaeth gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau be oedd ffioedd presennol Cyngor Gwynedd a chynghorau eraill ym Mhenllyn.

<u>viii) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2022/23.</u>
Cadarnhaodd y clerc eu bod wedi derbyn llythyrau gan y cynghorwyr yn hysbysu'r Cyngor o'i dymuniad i beidio derbyn y taliadau statudol a oedd ar gael iddynt.

<u>ix) Adolygu Asedau.</u>
Adolygwyd y rhestr asedau a chytunodd y cynghorwyr i archwilio'r llochesi bws a'r asedau eraill ac adrodd yn nol am eu cyflwr yn y cyfarfod nesaf. Gwnaed trefniadau gyda'r cynghorwyr i archwilio'r mynwentydd a'r cerrig beddi ac adrodd yn nôl am unrhyw waith oedd



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad:……………………..

angen ei wneud. Cytunwyd i osod hysbyseb ym Mhethe Penllyn i hysbysu'r cyhoedd o'r gwaith yma.

x) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.
Adolygwyd a chytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Rheoliadau Mewnol, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol yn gywir.

xi) Cynllun Hyfforddiant.
Trafodwyd yr hyn a oedd angen eu cynnwys yn y cynllun hyfforddiant. Gwnaed asesiad o anghenion hyfforddiant y cynghorwyr presennol a'r clerc a be fyddai ar gael i unrhyw gynghorwyr newydd a fyddai'n ymuno a'r Cyngor.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad:……………………..